| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I'R:** | Pwyllgor Trwyddedu |
| **DYDDIAD:** | 11 Medi 2024 |
| **SWYDDOG ARWEINIOL:** | Pennaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | Uwch Swyddog Trwyddedu<br>trwyddedu@sirddinbych.gov.uk<br>01824 706433 |
| **TESTUN:** | Rhaglen Waith 2024/25 |

## 1. DIBEN YR ADRODDIAD

1.2 Rhoi gwybod i'r Aelodau am flaenoriaethau'r Adain Drwyddedu, ynghyd â diweddariad ar y rhaglen waith y cytunwyd arni ar gyfer y Pwyllgor Trwyddedu ar gyfer 2024/25.

## 2. CRYNODEB GWEITHREDOL

2.1 Mae blaenoriaethau'r Adain Drwyddedu'n adlewyrchu'r ddyletswydd a roddir ar yr Awdurdod mewn perthynas â'i gyfrifoldebau o ran ei swyddogaeth drwyddedu, a rheoleiddio, rheoli a gorfodi deiliaid trwydded yn effeithiol, yn ogystal ag ymrwymiad yr Awdurdod i greu cymunedau mwy diogel a datblygu'r economi.

2.2 Mae Rhaglen Waith arfaethedig ynghlwm, yn Atodiad 1, i'r Aelodau ei hystyried a'i chymeradwyo.

## 3. GWYBODAETH GEFNDIR

3.1 Wrth ddrafftio'r Rhaglen Waith, mae Swyddogion wedi ystyried y polisïau sy'n berthnasol i'r Pwyllgor Trwyddedu a dyddiadau adolygu'r polisïau hynny ynghyd ag unrhyw newid deddfwriaethol posibl a gynigir gan Lywodraeth Cymru a'r Llywodraeth Ganolog.

3.2 Roedd yr eitemau canlynol wedi'u trefnu i'w hystyried gan yr Aelodau yn y cyfarfod hwn, ond oherwydd sawl rheswm gwahanol maent wedi'u tynnu neu eu haildrefnu yn awr:

i. **Tariff Cerbydau Hacni** – trefnwyd adroddiad i gyflwyno'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau yn dilyn adolygiad o'r gyfrifiannell methodoleg, ond yn y cyfarfod diwethaf ym mis Mehefin 2024 bu i'r Aelodau benderfynu y byddai'r tariff presennol ar gyfer cerbydau hacni yn aros yr un fath a bydd adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i'r Aelodau ym mis Mehefin 2025.

ii. **Gweithdrefnau Arbennig** - trefnwyd adroddiad diweddaru yn egluro'r ddeddfwriaeth newydd hefyd, ond nid oes unrhyw beth i'w adrodd ar hyn o bryd ers y diweddariad diwethaf.

iii. **Cerbydau Hygyrch i Gadeiriau Olwyn** - roedd adroddiad pellach i'w gyflwyno i'r Aelodau i gyflwyno'r wybodaeth ddiweddaraf yn dilyn canlyniadau'r ymgynghoriad gyda'r deiliaid trwydded. Fodd bynnag, newydd ddechrau y mae'r ymgynghoriad felly cynigir bod adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Aelodau yn gynnar y flwyddyn nesaf ar ganfyddiadau'r ymgynghoriad.

3.3 Mae'r Rhaglen Waith ddiwygiedig yn Atodiad A ac yn cynnwys y materion uchod.

## 4. ARGYMHELLIAD

4.1 Argymhellir bod yr Aelodau'n nodi cynnwys yr adroddiad, ac

4.2 Argymhellir ymhellach bod yr Aelodau'n ystyried ac yn cymeradwyo'r Rhaglen Waith ddiwygiedig y manylir arni yn Atodiad A ar gyfer 2024/25.